# Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i’w Bwyta gan Bobl

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 15 Gorffennaf 2020
Dyddiad cau: 11 Medi 2020

## Crynodeb o ymatebion

PDF
Gweld Supply of wild Game consultation response as PDF(Open in a new window) (628.83 KB)

## Yr ymgynghoriad

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi lansio ymgynghoriad 8 wythnos ar y canllawiau diwygiedig i Gyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i’w Bwyta gan Bobl. Diweddarwyd y canllawiau i wella eglurder yn bennaf ynghylch gofynion Rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt.

Nid yw'r canllawiau diwygiedig hyn yn cynnwys unrhyw newid mewn polisi, yn hytrach mae'n rhoi mwy o eglurder ar Reoliadau'r UE ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt; yn bennaf ar gyfer yr helwyr, y proseswyr a'r manwerthwyr sy'n saethu ac yn cyflenwi anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt.

Prif gynigion:

- Eglurder mewn perthynas â Rheoliadau'r UE ar eithriadau helwyr a manwerthwyr.
- Newid yng nghynllun y canllawiau gwreiddiol i’w gwneud yn haws eu darllen.
- Eglurder ar reoliadau cyfredol yr UE o fewn meysydd fel y bwtri helgig, cludiant, y gallu i olrhain, cynhyrchwyr cynradd a’r heliwr/parti hela.
- Cynulleidfa darged: mae'r canllawiau hyn yn benodol ar gyfer y diwydiant anifeiliaid hela gwyllt (helwyr a manwerthwyr), nid ar gyfer awdurdodau gorfodi cyfraith bwyd fel y mae'r canllawiau blaenorol yn ei awgrymu (er y gallant fod yn ddefnyddiol pan fyddant yn cynnal gwiriadau gorfodi).
- Terminoleg: mae'r term 'saethwr' wedi'i ddileu. Mae heliwr yn derm unigol sy'n cyfeirio at hela a saethu.

### Bydd yr ymgynghoriad hwn fwyaf o ddiddordeb i

Helwyr Anifeiliaid Gwyllt, Sefydliadau Anifeiliaid Hela Gwyllt, Manwerthwyr Anifeiliaid Hela Gwyllt, Proseswyr Anifeiliaid Hela Gwyllt ac Awdurdodau Gorfodi.

## Y pecyn ymgynghori

### England, Northern Ireland and Wales

WORD
Gweld Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i'w Bwyta gan Bobl - Dogfen Ganllaw (Saesneg yn unig) as Word(Open in a new window) (1.61 MB)

### Northern Ireland, Scotland and Wales

WORD
Gweld Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i'w Bwyta gan Bobl - Dogfen Ymgynghori as Word(Open in a new window) (58.17 KB)

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi’i lunio, bydd wedi’i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.